Archwilio Cymru
Audit Wales

Amserlen ar gyfer ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) mewn perthynas â Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor 2020-21 yng Nghymru

Mae'n ofynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) i ddata'r Dreth Gyngor (CT) a'r Gofrestr Etholwyr (ER), ar gyfer gwaith paru data gostyngiad person sengl y dreth gyngor 2020-21, gael ei gyflwyno o ddydd Llun 30 Tachwedd 2020.

Cam	Dyddiad	Nodiadau
Uwchlwytho data'r Dreth Gyngor (CT) a'r Gofrestr Etholwyr (ER) i raglen ReCheck yr NFI ar y we	O ddydd Llun 30 Tachwedd 2020[1]	Fel arfer, bydd canlyniadau'r gwaith paru data ar gael cyn gynted ag y caiff y ddwy set ddata eu llwytho'n llwyddiannus a bod datganiad cydymffurfio'r hysbysiad preifatrwydd wedi'i gwblhau yn y cais ar y we.
Dyddiad cau swyddogol ar gyfer cyflwyno	Dydd Gwener 29 Ionawr 2021	Dyma'r dyddiad a bennwyd gan yr NFI fel diwedd swyddogol yr ymarfer. Mae'r dyddiad hwn wedi'i bennu fel bod yr holl ddata CT a ER a dderbynnir yn cael ei goladu a bod modd adnewyddu cronfeydd data ReCheck ac AppCheck. Derbynnir data ar ôl y dyddiad hwn ond gellir adrodd yn allanol ei fod yn hwyr oni bai bod rheswm dilys yn cael ei ddarparu.
Canlyniadau gwaith paru'r NFI ar gael	Yn syth ar ôl uwchlwytho'r ddwy set ddata	

[1] Bydd cyfres o negeseuon atgoffa yn cael eu hanfon o'r dyddiad hwn, gan anfon copi at eich Uwch Swyddog Cyfrifol o'r NFI hefyd.